# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i’w hateb ar 26 Mai 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi’i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


2 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

3 Cwestiynau i’r Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

4 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

4 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Dreftadaeth

5 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

5 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

**Brian Gibbons (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am ba gyfraniadau ychwanegol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdodau Lleol wedi'u gwneud i Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru ers iddynt gael eu cyflwyno. (WAQ56011) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol***

***Rhoddwyd ateb ar 09 Mehefin 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyfrannu £201,550 at gyfrifon y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru ers iddi gael ei chyflwyno ym mis Medi 2006.

Mae awdurdodau lleol wedi cyfrannu £51,898 ychwanegol at gyfrifon y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant i'r plant hynny sy'n derbyn gofal y mae ganddynt gyfrifoldebau rhianta corfforaethol drostynt.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyfrannu £11,400 ychwanegol yn 2009-10 at gyfrifon y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant ar gyfer plant sy'n derbyn gofal o dan gynllun Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru.

**Brian Gibbons (Aberafan):** Faint sydd wedi manteisio ar y cyfraniadau ychwanegol yng Nghymru tuag at y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant ar gyfer plant sy'n mynd i mewn i addysg orfodol, fesul ardal awdurdod lleol yng Nghymru. (WAQ56012) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Blant***

***Rhoddwyd ateb ar 03 Mehefin 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis):** Derbyniwyd cyfanswm o 26,775 o ffurflenni hawlio yn ystod 2009-10. Atodir tabl sy'n dangos dadansoddiad rhai sydd wedi manteisio ar y cyfraniadau ychwanegol fesul ardal awdurdod lleol.

| **Dosbarthiad y rhai sydd wedi manteisio ar Gronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru fesul awdurdod lleol** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y nifer isaf | | | | | | | | |
| Y nifer uchaf | | | | | | | | |
| **Awdurdod Lleol** | **Cyfanswm y taliadau £50 a ddosbarthwyd** | **Nifer sydd wedi hawlio £50** | **Nifer sydd wedi hawlio £50 yn ôl %** | **Cyfanswm y taliadau £100 a ddosbarthwyd** | **Nifer sydd wedi hawlio £100 fesul cais** | **Cyfanswm sydd wedi hawlio £100 yn ôl %** | **Nifer yr holl hawliadau fesul ALl** | **Nifer yr holl hawliadau yn ôl %** |
| Abertawe | 3977 | 1374 | 34.55 | 930 | 231 | 24.84 | 1605 | 40.36 |
| Blaenau Gwent | 996 | 341 | 34.24 | 441 | 106 | 24.04 | 447 | 44.88 |
| Bro Morgannwg | 2452 | 1092 | 44.54 | 386 | 92 | 23.83 | 1184 | 48.29 |
| Casnewydd | 2576 | 1072 | 41.61 | 716 | 181 | 25.28 | 1253 | 48.64 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Conwy | 1713 | 781 | 45.59 | 362 | 133 | 36.74 | 914 | 53.36 |
| Sir Benfro | 2073 | 861 | 41.53 | 379 | 90 | 23.75 | 951 | 45.88 |
| Sir y Fflint | 2926 | 1089 | 37.22 | 418 | 103 | 24.64 | 1192 | 40.74 |
| Caerdydd | 5535 | 2217 | 40.05 | 1497 | 407 | 27.19 | 2624 | 47.41 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2116 | 749 | 35.40 | 667 | 157 | 23.54 | 906 | 42.82 |
| Gwynedd | 2029 | 755 | 37.21 | 333 | 88 | 26.43 | 843 | 41.55 |
| Merthyr Tudful | 1014 | 291 | 28.70 | 389 | 84 | 21.59 | 375 | 36.98 |
| Torfaen | 1600 | 599 | 37.44 | 338 | 73 | 21.60 | 672 | 42.00 |
| Wrecsam | 2394 | 1007 | 42.06 | 511 | 120 | 23.48 | 1127 | 47.08 |
| Caerffili | 3239 | 1144 | 35.32 | 852 | 222 | 26.06 | 1366 | 42.17 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2359 | 912 | 38.66 | 616 | 147 | 23.86 | 1059 | 44.89 |
| Ceredigion | 1316 | 519 | 39.44 | 193 | 67 | 34.72 | 586 | 44.53 |
| Sir Ddinbych | 1602 | 593 | 37.02 | 343 | 98 | 28.57 | 691 | 43.13 |
| Ynys Môn | 1158 | 481 | 41.54 | 232 | 64 | 27.59 | 545 | 47.06 |
| Powys | 2308 | 1043 | 45.19 | 296 | 94 | 31.76 | 1137 | 49.26 |
| Rhondda Cynon Taf | 4042 | 1621 | 40.10 | 1408 | 306 | 21.73 | 1927 | 47.67 |
| Sir Fynwy | 1649 | 793 | 48.09 | 162 | 62 | 38.27 | 855 | 51.85 |
| Sir Gaerfyrddin | 3100 | 1341 | 43.26 | 643 | 189 | 29.39 | 1530 | 49.35 |
| **Noder: dim ond 23,789 o hawliadau a allai gael eu mapio'n ddaearyddol oherwydd y diffyg gwybodaeth am gyfeiriadau a ddarparwyd gan rieni** | | | | | | | | |

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**David Melding (Canol De Cymru):** Faint o gwmnïau sydd wedi cael cymorth dan y cynllun ProAct a hysbysodd y Gwasanaeth Taliadau Diswyddo am gynnig i ddiswyddo gweithwyr, ac a wnaiff ddatganiad am hynny. (WAQ56008) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau***

***Rhoddwyd ateb ar 03 Mehefin 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths):** Dim ond i gwmnïau sydd am ddiswyddo mwy na 20 o unigolion o fewn cyfnod o 90 o ddiwrnodau y mae'r gofyniad i hysbysu'r Gwasanaeth Taliadau Diswyddo yn berthnasol. Rydym yn ymwybodol o nifer fach o gwmnïau sydd wedi cael cymorth o dan ProAct ac sydd wedi diswyddo staff ar ôl hynny. Fodd bynnag, dim ond dau o'r cwmnïau hyn sydd wedi diswyddo dros 20 o unigolion.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am aelodaeth Grŵp Gweithredu'r Cynllun Iechyd Gwledig. (WAQ56009)

***Rhoddwyd ateb ar 03 Mehefin 2010***

Sefydlwyd Grŵp Gweithredu Iechyd Gwledig o dan gadeiryddiaeth yr Athro Marc Clement, Is-ganghellor Prifysgol Cymru a chyfarfu am y tro cyntaf ddydd Mawrth 23 Chwefror 2010. Dewiswyd aelodau'r Grŵp Gweithredu Iechyd Gwledig ar sail eu harbenigedd, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o iechyd gwledig. Caiff y Grŵp Gweithredu ei gefnogi gan grŵp cyfeirio ehangach â chynrychiolaeth o grwpiau ehangach gan gynnwys:

- Byrddau Iechyd
- Grwpiau Ymgynghori Proffesiynol
- Llywodraeth Leol
- Y trydydd sector
- Grwpiau cleifion/defnyddwyr

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth i weithredu'r Gronfa Arloesi Iechyd Gwledig. (WAQ56010)

***Rhoddwyd ateb ar 03 Mehefin 2010***

Lansiais Gronfa Arloesi Iechyd Gwledig werth £1 miliwn ar 8 Ebrill 2010 i helpu i weithredu'r Cynllun Iechyd Gwledig drwy wella mynediad, integreiddio a chydlyniad cymunedol. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 7 Mai 2010. Mae'r Grŵp Gweithredu Iechyd Gwledig yn asesu ac yn cymeradwyo ceisiadau ar hyn o bryd.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Dreftadaeth*

**Nerys Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn y cyhoeddiad diweddar fod Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn golygu cynnydd o £50 miliwn y flwyddyn i feysydd y celfyddydau, treftadaeth a chwaraeon, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad i esbonio a fydd Cymru yn elwa neu'n cael ei heffeithio gan y penderfyniad. (WAQ56014) W

***Rhoddwyd ateb ar 04 Mehefin 2010***

Mae Llywodraeth newydd y DU yn ystyried newid system trethiant y loteri i system dreth sy'n seiliedig ar 'elw gros'. Ar hyn o bryd caiff cyfradd sefydlog o 12c yn y £1 ar gyfer pob tocyn loteri a werthir ei didynnu mewn treth gan Drysorlys EM. Mae'r Llywodraeth yn ystyried disodli hyn â system lle codir treth ar yr elw a wnaiff Camelot. Byddai hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i weithredwr y loteri, er

enghraifft i gynyddu gwobrau ar rai cynhyrchion fel cardiau crafu. Byddai hyn o bosibl yn cynyddu gwerthiant tocynnau, ac yn y pen draw, yn cynyddu'r arian sydd ar gael ar gyfer achosion da.

Mae fy swyddogion wedi siarad â chyd-aelodau yn Whitehall a dywedwyd wrthynt mai amcangyfrifon i raddau helaeth yw'r ffigurau o £50 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol, ar gyfer prosiectau'r celfyddydau, chwaraeon a threftadaeth ar hyn o bryd. Bydd angen gwneud cryn dipyn o waith cyn y gellir gweithredu'r cynnig hwn, er enghraifft dangos yr effaith debygol ar werthiant tocynnau i sicrhau y bydd refeniwiau yn cynyddu mewn gwirionedd, ac asesu a fyddai'r newid hwn yn achosi unrhyw effeithiau andwyol, megis cynnydd yn nifer y bobl sydd â phroblem gamblo.

Yn amlwg, byddai unrhyw gynnydd yn yr arian sydd ar gael ar gyfer 'achosion da' yng Nghymru yn cael ei groesawu. Gallai £150 miliwn ychwanegol y flwyddyn ledled y DU olygu £7-8 miliwn ychwanegol y flwyddyn i Gymru. Os caiff y newidiadau hyn eu cyflwyno er mwyn ymgynghori arnynt, a phryd y gwneir hyn, byddaf wrth gwrs yn pwyso ar y Llywodraeth i sicrhau bod Cymru yn cael ei chyfran briodol. Fel y gwyddoch mae gan Lywodraeth y Cynulliad amheuon mawr ynghylch fformiwla Barnett a byddaf yn dadlau dros system ddyrannu decach yn debyg i'r hyn a awgrymwyd gan Gomisiwn Holtham.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Beth yw cyfanswm cyfaint y tir sy'n eiddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd a pha gyfran o'r tir hwn sydd wedi cael ei ddyrannu ar gyfer ei ddatblygu mewn cynlluniau datblygu awdurdodau lleol. (WAQ56015)

***Rhoddwyd ateb ar15 Mehefin 2010***

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad gynlluniau manwl o ran lleoliad asedau tir ac eiddo a gedwir o dan enw Gweinidogion Cymru. Ar hyn o bryd, nad oes system a gedwir yn ganolog i gysylltu'r cynlluniau hyn â chynlluniau sy'n nodi ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd.

Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu ffyrdd o fynd i'r afael â hyn ac rydym yn cynnal trafodaethau â chydweithwyr yn Asiantaeth yr Amgylchedd i ystyried sut y gellid rhannu'r wybodaeth hon yn ehangach ac yn fwy tryloyw.

Mae cynlluniau datblygu awdurdodau lleol yng Nghymru ar wahanol gamau yn y broses o'u paratoi a'u rhoi ar waith. Nid ydym yn cadw gwybodaeth yn ganolog am dir Llywodraeth y Cynulliad sydd i gael ei ddatblygu yn y cynlluniau hyn.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru dyddiadau cyfarfodydd Cyngor Amaethyddiaeth yr UE y mae hi wedi bod yn bresennol ynddynt ers ei phenodiad yn 2007. (WAQ56013)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Mehefin 2010***

Fel y Gweinidog dros Faterion Gwledig, rwyf wedi bod yn bresennol yng Nghyngor Amaethyddiaeth yr UE ar y dyddiadau canlynol:

25ain Tachwedd 2007, Brwsel.
23ain Mehefin 2008, Lwcsembwrg
20fed Tachwedd 2008, Brwsel.
19eg Ionawr 2009, Brwsel.

7fed Medi 2009, Brwsel.

Yn ogystal, cyfarfûm â Mariann Fischer Boel, Comisiynydd yr UE ar gyfer Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar y pryd ar: 22ain Gorffennaf 2007 yng Nghaerdydd; 23ain Gorffennaf 2007 yn Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd; a'r 28ain Ebrill 2008 yng Nghynhadledd Undeb Ffermio'r Menywod, Pen-y-bont ar Ogwr.
Hoffwn nodi hefyd fod swyddogion yn mynd i bob un o gyfarfodydd allweddol ac ategol y Cyngor. Hefyd, geir cysylltiad ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd â'r Comisiwn ar amrywiaeth o faterion sy'n berthnasol i'r portffolio Gweinidogol ar Faterion Gwledig.